# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Aelod Llywyddol) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J C Bayliss | P M Black |
| J E Burtonshaw | R A Clay | U C Clay |
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| S E Crouch | N J Davies | P Downing |
| C R Doyle | W Evans | E W Fitzgerald |
| F M Gordon | J A Hale | T J Hennegan |
| C A Holley | P R Hood-Williams | B Hopkins |
| D H Hopkins | L James | Y V Jardine |
| M H Jones | A J Jones | J W Jones |
| E J King | E T Kirchner | M B Lewis |
| R D Lewis | D J Lewis | A S Lewis |
| C E Lloyd | K E Marsh | P M Matthews |
| P N May | P M Meara | H M Morris |
| G Owens | D Phillips | C L Philpott |
| J A Raynor | T H Rees | I M Richard |
| C Richards | P B Smith | R V Smith |
| R J Stanton | R C Stewart | D G Sullivan |
| C Thomas | C M R W D Thomas | L G Thomas |
| M Thomas | L J Tyler-Lloyd | G D Walker |
| L V Walton | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, J P Curtice, A M Day, V M Evans, C R Evans, R Francis-Davies, J E C Harris, S M Jones, P Lloyd, J Newbury a/ac G J Tanner

86. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oedd angen dychwelyd ffurflenni os nad oedd unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd C Anderson, J A Hale, T J Hennegan a G D Walker fudd personol yng nghofnod 93 "Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân";

2) Datganodd y cynghorwyr C Anderson, J C Bayliss, P M Black, J E Burtonshaw, R A Clay, U C Clay, A C S Colburn, D W Cole, A M Cook, S E Crouch, N J Davies, P Downing, C R Doyle, W Evans, E W Fitzgerald, F M Gordon, J A Hale, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, L James, Y V Jardine, A J Jones, J W Jones, M H Jones, E J King, E T Kirchner, A S Lewis, D J Lewis, M B Lewis, R D Lewis, C E Lloyd, K E Marsh, P M Matthews, P N May, P M Meara, H M Morris, G Owens, D Phillips, C L Philpott, J A Raynor, T H Rees, I M Richard, C Richards, P B Smith, R V Smith, R J Stanton, R C Stewart, D G Sullivan, C Thomas, C M R W D Thomas, D W W Thomas, L G Thomas, M Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walker a T M White fudd personol yng nghofnod 97 "Adroddiad Blynyddol Drafft 2017-2018, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – 2017-2018 Ymgynghoriad";

3) Datganodd y cynghorwyr C Anderson, J C Bayliss, P M Black, J E Burtonshaw, R A Clay, U C Clay, A C S Colburn, D W Cole, A M Cook, S E Crouch, N J Davies, P Downing, C R Doyle, W Evans, E W Fitzgerald, F M Gordon, J A Hale, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, L James, Y V Jardine, A J Jones, J W Jones, M H Jones, E J King, E T Kirchner, A S Lewis, D J Lewis, M B Lewis, R D Lewis, C E Lloyd, K E Marsh, P M Matthews, P N May, P M Meara, H M Morris, G Owens, D Phillips, C L Philpott, J A Raynor, T H Rees, I M Richard, C Richards, P B Smith, R V Smith, R J Stanton, R C Stewart, D G Sullivan, C Thomas, C M R W D Thomas, D W W Thomas, L G Thomas, M Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walker a T M White fudd personol yng nghofnod 98 "Lwfansau band eang a ffôn, TGCh a ffonau symudol Cynghorwyr - mis Mai 2017 a'r tu hwnt".

4) Datganodd y cynghorwyr J W Jones, M H Jones, R D Lewis, K E Marsh, P M Meara, J A Raynor a C Thomas fudd personol yng nghofnod 101 "Cwestiynau'r Cynghorwyr".

## 87. COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar ychwanegu'r cynghorydd L V Walton at restr yr ymddiheuriadau am absenoldeb:

1) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2016.

## 88. YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 89. CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.

**1) Cydymdeimladau**

**a) Y cyn-gynghorydd David Raymond (Ray) Beech**

Cyfeiriodd yr aelod llywyddu at farwolaeth ddiweddar y cyn-gynghorydd Ray Beech. Datganodd fod y cyn-gynghorydd Beech wedi gwasanaethu ward etholiadol Canol Gorseinon yr hen Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw.

Cododd pawb a oedd yn bresennol i nodi eu cydymdeimlad a'u parch.

## 90. CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.

**1) Cefnogaeth ar gyfer y Fargen Ddinesig**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y gefnogaeth a dderbyniwyd ar gyfer y Fargen Ddinesig gan Ganghellor y Trysorlys yn ystod datganiad y Gyllideb ym mis Tachwedd. Dywedodd yr oedd hyn yn cyd-fynd â'r gefnogaeth a roddwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y gallai'r Fargen Ddinesig fod yn werth £1.3 biliwn i'r economi ranbarthol.

**2) Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin yn y Cartref**

Atgoffwyd cynghorwyr gan Arweinydd y Cyngor fod Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin yn y Cartref Abertawe wedi trefnu diwrnod agored ddydd Gwener, 25 Tachwedd 2016. Dywedodd fod y siop ar Stryd Singleton. Ceir rhagor o wybodaeth am y siop yn http://swanseawomenscentre.co.uk/2015/blog/domestic-abuse-one-stop-shop

**3) Sefydliad Addysgiadol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) – Rhwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd Dysgu**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorydd C E Lloyd wedi dychwelyd yn ddiweddar o Tsieina ar ôl bod i gynhadledd Rhwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd Dysgu UNESCO. Dywedodd fod Dinas a Sir Abertawe wedi arwain yn y fenter Dinas Ddeallus.

## 91. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd unrhyw gwestiwn yn gofyn am ymateb ysgrifenedig.

92. **CYFLWYNIAD CYHOEDDUS - DIM.**

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

93. **GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU - CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN**

Rhoddwyd cyflwyniad gan Chris Davies (Prif Swyddog Tân) ar waith Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Gofynnwyd sawl cwestiwn i'r Prif Swyddog Tân.

Rhoddwyd diolch am y cyflwyniad gan y cynghorydd R C Stewart, Arweinydd y Cyngor.

94. **ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Steve Barry, Swyddfa Archwilio Cymru, yn amlinellu Adroddiad Gwella Blynyddol Abertawe 2015-2016 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Diolchwyd i Steve Barry am ddod i'r cyfarfod ac am ateb cwestiynau gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Strategaeth.

**PENDERFYNWYD**:

1) Derbyn a nodi Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015-2016;

2) Nodi'r camau gweithredu a gymerwyd eisoes a'r rhai arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd gwelliant fel rhan o broses gwella perfformiad y cyngor.

95. **STRATEGAETH MWY O DAI'R CYNGOR**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf adroddiad a oedd yn ceisio sefydlu strategaeth ar gyfer darparu mwy o dai cyngor.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r strategaeth ddrafft a'r cynllun gweithredu i'w rhoi ar waith.

96. **CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR - 2017/18**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrifiad Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ei Chynghorau Cymuned/Tref ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ar gyfer 2017-2018. Mae'n ofynnol i'r cyngor bennu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2017/2018 erbyn 31 Rhagfyr 2016.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Cymeradwyo cyfrifo Sylfeini Treth y Cyngor ar gyfer 2017/2018;

2) Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru), fel y'u diwygiwyd, mae Dinas a Sir Abertawe wedi cyfrifo'r canlynol ar gyfer y flwyddyn 2017-2018:

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer yr ardal gyfan** | 89,465 |
| **Ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned:** | |
| Llandeilo Ferwallt | 1,965 |
| Clydach | 2,603 |
| Gorseinon | 3,136 |
| Tregŵyr | 1,944 |
| Pengelli | 407 |
| Llanilltud Gŵyr | 319 |
| Cilâ | 2,074 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 488 |
| Llangyfelach | 946 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,581 |
| Llanrhidian Isaf | 332 |
| Llwchwr | 3,385 |
| Mawr | 733 |
| Y Mwmbwls | 9,623 |
| Penllergaer | 1,360 |
| Pennard | 1,456 |
| Penrhys | 410 |
| Pontarddulais | 2,277 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,028 |
| Porth Einon | 427 |
| Reynoldston | 289 |
| Rhosili | 187 |
| Y Crwys | 715 |
| Cilâ Uchaf | 566 |
| **Ar gyfer ardal Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe** | 62,254 |

97. **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (PACGA) 2017-2018 - YMGYNGHORIAD.</u>**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn hysbysu'r cyngor o Drafft Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2017-2018 ac amlinellodd benderfyniadau arfaethedig yr IRPW. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ymateb drafft i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD**:

1) Mabwysiadu’r sylwadau a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad fel ymateb yr awdurdod i ymgynghoriad yr IRPW mewn perthynas â'i Drafft Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2017-2018.

98. **LWFANSAU BAND EANG, FFONAU, TGCH A FFONAU SYMUDOL I GYNGHORWYR - MAI 2017 A'R TU HWNT.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Prif Swyddog Trawsnewid adroddiad a oedd yn adolygu'r polisi "TGCh Cynghorwyr - mis Mai 2012 a'r tu hwnt", gan sicrhau felly fod pob cynghorydd yn derbyn darpariaeth TGCh sy'n addas ar gyfer ei anghenion, ac sy'n cydymffurfio â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd at baragraff 3.1 yr adroddiad a dywedodd fod yr IRPW wedi cadarnhau ei fod yn briodol i gynnig tâl cefnogi i gynrychiolydd cyngor cymuned/tref y pwyllgor safonau.

Yn dilyn trafodaeth, newidiwyd sawl paragraff yn Atodiad A yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Parhau â'r trefniadau presennol o ran cynghorwyr yn prynu eu hoffer TGCh eu hunain;

2) Nodi bod angen mynediad i Office 365 er mwyn galluogi technoleg y cwmwl i gael system rhannu gwybodaeth fwy diogel a chadarn, yn amodol ar gyfnod prawf llwyddiannus;

3) Nodi lwfans TGCh y cynghorwyr fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;

4) Nodi lwfans band eang a ffôn y cynghorwyr fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;

5) Nodi lwfans ffôn symudol y cynghorwyr fel y nodwyd yn yr adroddiad;

6) Nodi cynnwys yr adran sy'n ymwneud â hunanwasanaeth i gynghorwyr;

7) Cymeradwyo'r lwfans TGCh a'r lwfans band eang a ffôn arfaethedig i aelodau cyfetholedig

8) Nodi penderfyniad y cyngor y dylai holl agendâu ac adroddiadau craffu etc. ddefnyddio meddalwedd Modern.gov erbyn mis Mai 2017;

9) Anfon adroddiad diwygiedig i'r Cabinet gydag argymhellion y cyngor.

**Sylwer:** *Gofynnodd y cynghorydd D Phillips y cwestiwn canlynol:*

*"Awgrymodd yr IRPW fod angen cefnogaeth ddigonol ar gynghorwyr gan yr awdurdod er mwyn iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau sy'n cynnwys cyfleusterau ffôn ac e-byst a mynediad electronig. Yn unol â'r egwyddor hon, dylai'r awdurdod*

*geisio trafod trefniad â CThEM lle byddai aelodau'n talu treth ar sail lefel defnydd personol y cytunwyd arni yn hytrach nag ar y lwfans llawn."*

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu yn dilyn trafodaethau â CThEM.

99. **AELODAETH PWYLLGORAU.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth cyrff y cyngor.

**PENDERFYNWYD** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu**
Tynnu enw'r cynghorydd J C Bayliss.
Ychwanegu'r cynghorydd P M Matthews.

100. **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD.**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro Dros Dro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ceisio diwygio Cyfansoddiad y Cyngor at ddiben ei symleiddio, ei wella a/neu ychwanegu ato mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

1) Rhan 4 – Rheolau Gweithdrefnau Ariannol;

Yn dilyn trafodaeth, newidiwyd y diwygiad a restrwyd yn yr adroddiad ychydig er mwyn egluro y byddai'n rhaid i'r tri a restrir awdurdodi dileu dyledion dros £10,000.

**PENDERFYNWYD** y dylid dileu Rheol Gweithdrefn Ariannol 11.6 a rhoi'r canlynol yn ei lle:

“Mae'n rhaid dileu dyledion na ellir eu hadennill. Mae'n rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid gymeradwyo pob dyled i'w ddileu hyd at £10,000. Gall dyledion dros £10,000 gael eu dileu gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros y gwasanaeth perthnasol”.

101. **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.**

Cyflwynwyd deg (10) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd unrhyw gwestiynau atodol a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig.

2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

102. **ADRODDIADAU CRAFFU - ADRODDIAD EFFAITH CHWARTEROL**

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.17 pm

**CADEIRYDD**